***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 Rhif 689 (Cy. 95) (C. 45)

# ANIFEILIAID, CYMRU

LLES ANIFEILIAID

## Rheoliadau Deddf Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024 (Cychwyn) (Cymru) 2024

*Gwnaed - - - - 22 Mai 2024*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 7(2)(c) o Ddeddf Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024(**1**).

**Enwi**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024 (Cychwyn) (Cymru) 2024.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 22 Gorffennaf 2024**

**2.** Daw adrannau 1 a 5(a) ac (c) o Ddeddf Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024 i rym ar 22 Gorffennaf 2024.

*Huw Irranca-Davies*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

22 Mai 2024

(**1**) 2024 p. 11.

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dwyn i rym o ran Cymru adrannau 1 a 5(a) ac (c) o Ddeddf Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024 ("y Ddeddf") ar 22 Gorffennaf 2024.

Daeth holl ddarpariaethau eraill y Ddeddf o ran Cymru i rym ar 20 Mai 2024 (dyddiad y Cydsyniad Brenhinol) yn unol ag adran 7(3) o'r Ddeddf.